

## TUDALEN 70

Cyfarfod o **Bwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid** Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd o bell, trwy fideo-gynadledd Zoom, nos Lun 25 Ebrill 2022 am 6.30pm.

**YN BRESENNOL:** - Cynghorydd George Turner (Cadeirydd), Cynghorwyr Les Day, Elin Walker Jones (heb bleidlais), Dylan Fernley (ymunodd am 7.03pm), Kieran Jones, John Martin, Enid Parry (heb bleidlais), Nigel Pickavance (heb bleidlais), Gwynant Roberts.

Swyddogion:- Martin Hanks (Clerc y Dref dros dro), Gwynfor Owen (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

### **266/22 YMDDIHEURIADAU**

Eu Teilyngdod y Maer, Cynghorydd Owen Hurcum

### **267/22 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

### **268/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

### **269/22 DERBYN ADRODDIAD CLERC Y DREF**

Adroddodd Clerc y Dref ar gynnydd ar amrywiol gynlluniau a dywedodd fod y Cyngor o dan wariant y gyllideb ar hyn bryd. Eglurodd eu bod yn dal i geisio datrys y sefyllfa gyfieithu ar y pryd fel y gall cyfarfodydd fod yn rhai hybrid o hyn ymlaen.

Mae camerâu cylch cyfyng ychwanegol ar eu ffordd, a bydd hyn yn gynnydd o 50% yn nifer y camerâu.

Mae'r Brifysgol yn cynnal seremonïau graddio eleni a rhai'r 2 flynedd ddiwethaf dros nifer o ddiwrnodau. Hoffent osod baneri yng nghanol y ddinas a'r Pier yn ystod y cyfnod hwn.

Gofynnwyd am gymorth gan weithwyr y Cyngor i'w gosod.

**PENDERFYNWYD** cytuno i'r cais hwn gan y bydd y baneri'n dod â lliw a sylw i'r Ddinas ac mae'n ffordd dda o gydwethio â'r Brifysgol. Fodd bynnag, bydd angen sicrhau fod y baneri i gyd yn ddwyieithog.

Ar ddiwedd y flwyddyn ddinesig hon, roedd yr aelodau'n dymuno diolch i Glerc y Dref dros dro am ei waith caled a'i gefnogaeth dros y misoedd diwethaf.

### **270/22 DARPARU DIWEDDARIAD AR ETHOLIAD Y CYNGOR**

Roedd Clerc y Dref wedi anfon crynodeb i'r aelodau am y sefyllfa o ran cyfansoddiad Cyngor Dinas Bangor, a'r seddi oedd yn cael ei hymladd a'r rhai diwrthwynebiad yn yr etholiad ym mis Mai. Roedd 5 sedd yn wag o hyd, a byddai angen i'r aelodau gyfethol pobl ar y rhain.

Byddai gwahoddiadau'n cael eu hanfon i'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai a gan fod nifer o Gynghorwyr yn ymddiswyddo y tro hwn, gobeithid y bydden nhw hefyd yn gallu bod yn bresennol.

## **TUDALEN 71**

### **271/22 CYMERADWYO CANLLAWIAU AR GYFER TALU GRANTIAU'R CYNGOR**

Roedd Maer y Dref wedi dosbarthu dogfen ddrafft, sef canllawiau ar roi grantiau a chyfraniadau. Eglurodd mai dogfen fframwaith yw hwn ac nad yw'n derfynol. Teimlai rhai aelodau fod angen mwy o amser cyn y gallent gymeradwyo'r ddogfen, fodd bynnag, roedd pawb yn cytuno fod hwn yn fan cychwyn da ac y gellir addasu'r canllawiau os bydd angen. **PENDERFYNWYD** derbyn y canllawiau drafft.

### **272/22 CYMERADWYO CEFNOGAETH I DDIGWYDDIADAU AR Y PIER**

Y 2 ddigwyddiad dan sylw oedd (i) Pen-blwydd y Pier yn 126 oed, (ii) y Jiwbilî Platinwm.

Roedd y Pwyllgor Asedau eisoes wedi cymeradwyo'r rhain mewn egwyddor, ond y Pwyllgor yma sydd i gymeradwyo cyllid. Eglurodd Clerc y Dref fod arian ar gael yn y gyllideb prosiectau arbennig, a hefyd y gyllideb digwyddiadau.

Eglurodd y Cyng Parry y byddai digwyddiadau drwy'r dydd ar 14 Mai i ddathlu'r pen-blwydd, gyda than gwylt yn yr hwyr. Nid oedd trefniadau dathlu'r Jiwbilî yn derfynol eto ond mae'n debyg mai un diwrnod fyddai hynny.

**PENDERFYNWYD** rhoi cymorth ariannol i'r digwyddiadau hyn.

### **273/22 DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION STAFF**

Sesiwn gaeedig oedd hon.

### **274/22 DIWEDDARIAD AR Y SEFYLLFA GYDA NANTPORTH CIC**

Mae'r Cyngor yn disgwyl am gyngor cyfreithiol ar yr eitem hon.

### **275/22 CYMERADWYO ANFONEBAU I'W TALU**

Cymeradwywyd yr anfonebau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.40pm**

ACTING TOWN CLERK – Martin Hanks – CLERC Y DREF DROS DRO